



Cynhyrchwyd ar ran AQA, OCR, Pearson a CBAC

Gwrthdaro ar yr amserlen sy'n cynnwys arholiad UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach, Safon Uwch Mathemateg neu Safon Uwch Ystadegaeth

O ganlyniad i achosion blaenorol o dorri rheolau diogelwch papurau cwestiynau yn 2019, rhoddodd AQA, OCR, Pearson a CBAC drefniadau diogelwch gwell ar waith ar gyfer arholiadau allweddol. O ganlyniad, mae arholiadau UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach, Safon Uwch Mathemateg a Safon Uwch Ystadegaeth wedi'u hamserlennu yn sesiwn y prynhawn.

Os oes gan ymgeisydd wrthdaro ar ei amserlen sy'n cynnwys arholiad UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach, Safon Uwch Mathemateg neu Safon Uwch Ystadegaeth, **ni all** canolfan symud yr arholiad i sesiwn y bore.

Mae'n rhaid i arholiadau UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach, Safon Uwch Mathemateg a Safon Uwch Ystadegaeth gael eu sefyll yn y sesiwn prynhawn fel sydd wedi'i gyhoeddi yn amserlen y corff dyfarnu.

Yr unig eithriad i'r rheol hon fyddai pan fydd gan ymgeisydd dri neu fwy o arholiadau UG neu Safon Uwch mewn un diwrnod sy'n **fwy na** chwe awr o hyd. Yn y senario hon gellir symud arholiad UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach, Safon Uwch Mathemateg neu Safon Uwch Ystadegaeth i'r bore canlynol. Gweler **adran 8** y llyfryn cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau i gael gwybodaeth am drefniadau goruchwyllo dros nos – <https://www.cbac.co.uk/media/0pikgmjs/9-ice-21-22-w.pdf>

Mae'r cyrff dyfarnu yn gwerthfawrogi y gall fod heriau o ran logisteg i ymgeiswyr sydd ag amser ychwanegol a/neu egwylliau gorffwys dan oruchwyliaeth. Un ateb posibl yw amrywio'r amser cychwyn ar gyfer sesiwn y prynhawn yn unol â **pharagraff 6.2** y llyfryn cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau - <https://www.cbac.co.uk/media/0pikgmjs/9-ice-21-22-w.pdf>

Os nad yw hyn yn bosibl a bod gan ganolfannau ymholiadau am ymgeiswyr unigol, dylid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol am gyngor.

Nid yw'r trefniadau hyn yn berthnasol i arholiadau CCEA UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach a Safon Uwch Mathemateg.